

Agorwch ddrws i gartref gweddus i bawb y Nadolig hwn



24 ffaith sy'n pwysleisio pwysigrwydd datrys yr argyfwng rhent yng Nghymru:

1. Yn 2020, roedd 205,000 o gartrefi yng Nghymru'n cael eu rhentu oddi wrth landlordiaid preifat, dros ddwywaith cymaint â'r niferoedd ugain mlynedd yn ôl.
2. Mae gan chwarter y cartrefi rhent preifat ryw fath o berygl, a'r mwyaf cyffredin o bell ffordd ydy'r perygl o fod yn oer, llaith ac yn risg tân.
3. Yn nodweddiadol, mae cartref wedi'i rentu'n breifat yn costio £3.50 yr wythnos yn fwy i'w dwymo na chartref cymdeithasol nodweddiadol.
4. Pris cyfartalog cartref hunan-berchnogaeth yng Nghymru ydy £196,216 - bron i 7 gwaith cyflog gweithiwr amser llawn nodweddiadol.
5. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf dim ond 442 o dai 1 ystafell wely newydd a adeiladwyd ar gyfer rhentu cymdeithasol.
6. Mae prisiau tai ar gyfartaledd wedi codi 15.4% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf – dros ddwywaith mor gyflym â'r cynnydd mewn cyflogau cyfartalog.
7. Dim ond ar gyfer tŷ dwy ystafell wely y gall teulu o ddau oedolyn, plentyn 15 oed a babi 9 mis oed, hawlio cymorth chostau rhentu'n breifat.
8. Uchafswm yr help y gall unigolyn dan 35 oed ei gael ar gyfer rhent preifat ydy cost ystafell mewn tŷ neu fflat a rennir.
9. Nid oes gan un o bob ugain tŷ na chwarter y fflatiau yng Nghymru fynediad i ofod awyr agored preifat.
10. Mae Erthygl 25.1 o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol yn rhoi hawl i bob dyn, menyw a phlentyn gael tai digonol.
11. Ar 31 Awst 2021, roedd 6,817 o bobl yng Nghymru mewn llety dros dro oherwydd eu bod yn ddigartref.
12. Mae 25,700 o gartrefi gwag tymor hir yng Nghymru. Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Rhondda Cynon Taf sydd â'r nifer fwyaf o eiddo sy'n wag.

13. Y flwyddyn orau o ran nifer y tai cymdeithasol i gael eu hadeiladu oedd 1975/76. Adeiladwyd mwy o gartrefi yn y flwyddyn honno nag yn y saith mlynedd rhwng 2011 a 2018.
14. Y tŷ hynaf yng Nghymru ydy Hafod-y Garreg ym Mhowys. Mae ei nen-fforch o goed yn mynd yn ôl i ddyddiau gwrthryfel Owain Glyndŵr yn haf 1402.
15. Mae o leiaf 24,900 o ail-gartrefi yng Nghymru. Mae dwy ran o dair o'r holl ail gartrefi yng Ngwynedd, Sir Benfro a Chaerdydd.
16. Mae cartrefi yng Nghasnewydd a Chaerdydd bron ddwywaith yn fwy tebygol o fod â sgôr effeithlonrwydd ynni o C neu'n uwch nag ydy rhai yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Ddinbych.
17. Mae 40,000 o denantiaid cymdeithasol yng Nghymru wedi cael eu gwthio i dlodi gan godiadau rhent sy'n uwch na chwyddiant.
18. Pan fydd ceisiwr lloches yn cael caniatâd i aros yng Nghymru, dim ond 28 diwrnod sydd ganddo/ganddi i ddod o hyd i lety - yn aml mae'n llawer llai na hynny.
19. Er 1980, mae 155,669 o gartrefi cymdeithasol wedi'u gwerthu. Y blynyddoedd brig ar gyfer gwerthu oedd 1981- 83 pan werthwyd 273 o gartrefi yr wythnos.
20. Caerdydd sydd â'r gyfran uchaf o gartrefi rhent preifat yng Nghymru, sef 20.3%. Torfaen sydd â'r isaf, sef 9.3%.
21. Mae rhent tŷ 2 ystafell wely ar gyfartaledd a ddarperir gan gymdeithas dai £26 yr wythnos yn rhatach na rhent canolrif eiddo 2 ystafell wely a rentir oddi wrth landlord preifat.
22. Adeilad preswyl talaf Cymru ydy Tŵr Meridian yn Abertawe sy'n 350 troedfedd o uchder. Cyn bo hir, gallai sawl bloc tŵr arfaethedig ei oddiweddyd yng Nghaerdydd - bydd Tŵr Stryd Custom House yn 433 troedfedd o uchder pan gaiff ei adeiladu.
23. Nid oes gan fwy na phedwar o bob deg tenant preifat gytundeb tenantiaeth tymor penodol, sy'n eu gwneud yn agored i gael eu gyrru allan drwy ddadfeddiannu 'dim bai' e.e. os ydyn nhw'n gofyn am atgyweiriadau.
24. Mae yna 160 o gartrefi ym mhentref Bethlehem, Sir Gaerfyrddin, bron i gyd yn rhai ar wahân. Mae yna hefyd fwthyn gwyliau y gallwch ei rentu o'r enw Y Stabl!

#adecenthomeforall